Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 31 – 28 AWST 2009

Mae amryw o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yma ym mis Medi; nodir eu manylion isod.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 10 Medi
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

CYMHORTHFA MARK WILLIAMS, AS
10.30-12.00, dydd Gwener, 11 Medi
Cysyllter â swyddfa'r Rhyddfrydwyr Democrataidd am fanylion pellach (01970-615880).

ARDDANGOSFA LEONÉ SPIES
14 Medi i 15 Hydref
Arddangosfa o beintiadau Leoné Spies er budd Ffagl Gobaith. Ers iddi gael cancr dwy flynedd yn ôl mae Leoné wedi cynhyrchu cyfres o beintiadau sy'n dilyn cwrs y salwch a'r gwella ohono. Wrth i'r misoedd fynd heibio cynhyrchodd waith a oedd fwy-fwy optimistaidd, yn llawn golau ac asbri byw. Ganwyd Leoné yn Ne Affrica a bu'n byw yn Aberystwyth ers chwe mlynedd; mae'n artist difyr dros ben sy'n cynhyrchu amrywiaeth eang o waith mewn sawl gwahanol gyfrwng, llawer o'r darnau wedi eu hysbrydoli gan dirwedd, arfordir a bywyd yn Aberystwyth. Mae Leoné wedi arddangos yn eang yn Ne Affrica, Llundain, Efrog Newydd ac yng Nghymru. I gyd-fynd â'r arddangosfa, mae Ffagl Gobaith wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau amrywiol; manylion pellach oddi wrth Dana Edwards 01970-617042:

LAWNSIAD YR ARDDANGOSFA GYDAG OSI RHYS OSMOND
7.00-9.00, nos Lun, 14 Medi
Bydd y noson yn cynnwys sgwrs gan Osi Rhys Osmond ar y teitl *"Other in Art".* Tocynnau (am ddim) oddi wrth Dana Edwards 01970-617042.

GYRFA CHWILOD
7.00-9.00, nos Fawrth, 22 Medi
Hwyl i bawb dan ofal Hefin Jones.

PICNIS TEDI BERS A GWEITHDY TELYNAU
2.00-4.00, prynhawn Sadwrn, 3 Hydref
Picnic Tedi Bers a gweithdy telynau Dryw Bach gydag Eleri Turner.

TWMPATH DAWNS
8.00-10.00, nos Fercher, 7 Hydref
Twmpath dawns gydag Erwyd Howells.

THE DAY AFTER PEACE
7.00, nos Iau, 17 Medi
Ffilm ddogfen yw hon sy'n croniclo ymdrechion y gwneuthurwr ffilmiau Jeremy Gilley dros gyfnod o 10 mlynedd i sefydlu Diwrnod Heddwch ar 21 Medi. Trefnir y noson ar y cyd gan Morlan, Côr Gobaith (côr heddwch lleol) a changen leol Amnest Rhyngwladol. Mynediad trwy gyfraniad, elw at *Peace One Day*.

CYNGERDD CÔR GOBAITH
7.00, nos Lun, 21 Medi
Noson o gân i nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol. Bydd Côr Gobaith yn canu caneuon i gyd-fynd â'r ffilm *The Day after Peace*. Bydd stondinau gan amryw o fudiadau yno a bydd lluniaeth

ysgafn ar gael. Trefnir y noson ar y cyd gan Morlan, Côr Gobaith a'r gangen leol o Amnest Rhyngwladol. Mynediad trwy gyfraniad, elw at Amnest Rhyngwladol a *Médecins Sans Frontières*.

TRAFOD CERDDI BUDDUGOL CERI WYN JONES
Mae'r Prifardd Ceri Wyn Jones wedi derbyn ein gwahoddiad i ddod i'r Morlan i drafod y cerddi a enillodd iddo Goron Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau eleni. Yr ydym yn y broses o gytuno ar ddyddiad naill ai ym mis Medi neu fis Hydref – manylion pellach i ddilyn yn fuan.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr